**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**DYDD MAWRTH, 19 HYDREF 2021**

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Mawrth, 19 Hydref 2021

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Joe Johnson (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Mike Allport, Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Helen Brown, Derek Butler, Clive Carver, Geoff Collett, Paul Cunningham, Jean Davies, Rob Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Andy Hughes, Dave Hughes, Ray Hughes, Alasdair Ibbotson, Paul Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Tudor Jones, Brian Lloyd, Richard Lloyd, Mike Lowe, Dave Mackie, Hilary McGuill, Billy Mullin, Ted Palmer, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Ian Roberts, Tim Roberts, Kevin Rush, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Owen Thomas, Martin White, Andy Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley

**YMDDIHEURIADAU:**
Cynghorwyr: Bernie Attridge, Bob Connah, George Hardcastle, Cindy Hinds, Dennis Hutchinson, Rita Johnson, Colin Legg, a Tony Sharps a Carolyn Thomas

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Darpar Brif Weithredwr, Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid), Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Pennaeth Adnoddau Dynol a Newid Sefydliadol, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Ymgynghorydd Perfformiad Strategol, Arweinydd Tîm Gwasanaethau Democrataidd, a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd.

**GWESTEION:**
Mrs Isobel Everett
Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Jones o Lannau Dyfrdwy, PC a'r Foneddiges Jones, JP, DL
Dave Barnes, Rheolwr Refeniw a Chaffael
Lisa Brownbill, Rheolwr Archwilio Mewnol
Emma Cater, Cynorthwyydd Personol i'r Prif Swyddog, Gofal Cymdeithasol
Amanda Davidson, Cynorthwyydd Personol i'r Prif Swyddog, Addysg ac Ieuenctid
Jane Davies, Uwch Reolwr - Diogelu a Chomisiynu
Sara Dulson, Rheolwr Cyllid Strategol
Debbie Fielder, Dirprwy Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd
Jen Griffiths, Rheolwr - Budd-daliadau
Claire Harrington, Prif Archifydd
Damian Hughes - Uwch-reolwr, Cynllunio a Darpariaeth Ysgolion
Susie Lunt - Uwch Reolwr Gwasanaethau Integredig ac Arweinydd Oedolion
Craig Macleod - Uwch-reolwr: Plant
Lynne McAlpine, Cynorthwyydd Personol i'r Prif Swyddog Tai ac Asedau
Lyn Phillips, Arweinydd Tîm Gwasanaethau Democrataidd (Etholiadau)

Joanne Pierce, Swyddog Gweithredol
Denise P Price, Rheolwr Busnes, Rheoli Asedau Tai
Jeanette Rock - Uwch Swyddog Cynhwysiant a Dilyniant
Christopher Taylor - Rheolwr Cyllid Strategol
Liz Thomas - Rheolwr Cyllid Strategol
Karen Williams, Rheolwr Gweinyddu, Cronfa Bensiynau Clwyd
Lisa Williams, Goruchwyliwr Cefnogi Busnes | Profi, Olrhain, Diogelu, Sir y Fflint

Cyn cychwyn y cyfarfod, gofynnodd y Cadeirydd i bawb oedd yn bresennol i sefyll am funud o dawelwch er cof am Syr David Amess, Aelod Seneddol ar gyfer Gorllewin Southend, yn dilyn ei farwolaeth drasig yn ddiweddar.

## 46. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Medi 2021 fel cofnod cywir, a chafodd ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Chris Bithell ac Ian Smith.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

## 47. DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 48. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cyflwynodd y Cadeirydd ei gyhoeddiadau ac fe soniodd am y digwyddiadau canlynol diweddar:  Derbyniad Grŵp Cerdded Shotton, Sul Dinesig Maer Cyngor Tref y Rhyl, a Gwasanaethau Dinesig Maer Y Fflint.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Alasdair Ibbotson i'r cyfarfod. Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y Cynghorydd Ibbotson oedd wedi ei ethol yn ddiweddar i lenwi swydd wag yn Ward Penyffordd yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd David Williams.

Diolchodd y Cynghorydd Ibbotson i breswylwyr Penyffordd, Penymynydd, a Dobshill am eu cefnogaeth a'u hyder yn ei ethol o fel eu cynrychiolydd newydd. Rhoddodd deyrnged i'r cyn Gynghorydd David Williams am ei waith a'i gefnogaeth yn y gymuned leol.  Siaradodd am yr heriau oedd yn wynebu Ward Penyffordd yn y dyfodol, ac fe ymrwymodd i weithio'n ddiflino a chyda pharch, ar y cyd â'r Cynghorydd Cindy Hinds, ei gyd Aelod, i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer preswylwyr eu Ward.

## 49. DEISEBAU

Dim.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitem ganlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig dan Baragraff(au) 15 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

Ar y pwynt hwnnw, cafodd y ffrwd byw a recordiad o'r cyfarfod ei atal.

## 50. PRIF SWYDDOG, GALLU'R TÎM

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad i geisio cymeradwyaeth ar gyfer nifer o newidiadau i'r model gweithredu presennol. Rhoddodd wybodaeth gefndir ac fe soniodd am y prif ystyriaethau, fel y manylwyd arnynt yn yr adroddiad.

Rhoddodd y Darpar Brif Weithredwr (Prif Swyddog, Tai ac Asedau) drosolwg o'r sefyllfa bresennol a gallu yn y portffolio Tai ac Asedau, ac fe adroddodd am y cynigion a awgrymir.

Gofynnwyd i Aelodau ystyried y cynigion fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

Wrth gynnig y cynigion, siaradodd y Cynghorydd Ian Roberts i gefnogi'r argymhellion. Rhoddodd y Cynghorydd Roberts deyrnged i'r Prif Weithredwr, Darpar Brif Weithredwr, ac aelodau'r Panel Recriwtio am eu gwaith diwyd. Eiliodd y Cynghorydd Billy Mullin y cynnig.

Siaradodd y Cynghorwyr Ian Dunbar a Chris Dolphin i gefnogi'r cynigion.

Dywedodd y Cynghorydd Mike Peers ei fod yn cefnogi'r cynigion yn rhannol, serch hynny, mynegodd nifer o bryderon a chynhigiodd bod yr argymhellion yn cael eu diwygio fel a ganlyn: bod Prif Swyddog yn cael ei b/phenodi ar gyfer portffolio Tai a Chymuned. Bod penodiad i'r swydd Rheolwr Corfforaethol - Rhaglenni Cyfalaf ac Asedau yn cael ei ohirio tan ar ôl Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022; a bod swyddog o'r tîm Tai ac Asedau presennol yn cael ei benodi am gyfnod dros dro yn y cyfamser. Eiliwyd y diwygiad gan y Cynghorydd Owen Thomas.

Siaradodd y Cynghorydd Ian Roberts i gefnogi'r cynnig a gyflwynwyd a diolchodd i Swyddogion am eu hymatebion manwl i'r cwestiynau a holwyd gan Aelodau ynghylch costau cyflog. Siaradodd y Cynghorydd Roberts yn erbyn y cynnig i ohirio swydd Rheolwr Corfforaethol - Rhaglenni Cyfalaf ac Asedau tan ar ôl mis Mai 2022.

Cymerwyd pleidlais ar y diwygiad a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Mike Peers uchod. Ni chafodd y diwygiad ei gario.

Gofynnwyd am bleidlais ar y cynnig gwreiddiol a gynhigiwyd gan y Cynghorydd Ian Roberts fel a ganlyn:

(a) Bod y cynnig ar gyfer (1) amnewid Prif Swyddog portffolio Tai a Chymuned a (2) swydd newydd ar gyfer Rheolwr Corfforaethol, Rhaglenni Cyfalaf ac Asedau yn cael ei gefnogi: a

(b) Bod Panel Penodiadau Aelodau presennol yn cael ei ail-alw i benodi i swydd Prif Swyddog newydd.

Cariwyd y cynnig.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y cynigion ar gyfer (1) Prif Swyddog newydd ar gyfer portffolio Tai a
Chymuned a (2) swydd newydd Rheolwr Corfforaethol - Rhaglenni Cyfalaf ac Asedau'n cael eu cymeradwyo; a

(b) Bod Panel Penodiadau Aelodau presennol yn cael ei ail-alw i benodi i swydd Prif Swyddog newydd.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 - I AIL-DDECHRAU FFRYDIO BYW AR GYFER Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Yn dilyn ystyriaeth o'r eitem gyfrinachol, bydd y ffrydio byw yn ail-ddechrau er mwyn galluogi'r wasg a'r cyhoedd i wylio gweddill y cyfarfod.

Ar y pwynt hwnnw, fe ail ddechreuwyd y ffrydio byw a recordiad o'r cyfarfod.

## 51. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2020/21

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad ar Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2020-21. Rhoddodd wybodaeth gefndir a dywedodd bod yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd cyn y Cyngor Sir ac roedd wedi'i argymell i'r Cyngor ei gymeradwyo. Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at y meysydd a amlygwyd i'w gwella, a dywedodd fod perfformiad yn erbyn mesurau Cynllun y Cyngor yn gadarnhaol ar y cyfan.

Fe soniodd y Cynghorydd Ian Roberts am her y pandemig byd eang a dywedodd ei fod yn falch o berfformiad eithriadol gweithwyr y Cyngor mewn amgylchiadau mor anodd a mor ddigyffelyb. Gofynnodd i Brif Swyddogion anfon ei ddiolchiadau diffuant ymlaen i'w timau ar ran y Cyngor Sir am eu gwaith.

Cynigiodd y Cynghorydd Roberts yn ffurfiol bod gwerthfawrogiad pob Aelod o'r Cyngor o waith rhagorol Swyddogion a gweithwyr ym mhob gwasanaeth yn cael

eu cynnwys fel argymhelliad ychwanegol yn yr adroddiad. Eiliodd y Cynghorydd Billy Mullin y cynnig.

Gan gefnogi'r sylwadau gan y Cynghorydd Roberts, rhoddodd y Cynghorydd Mike Peers deyrnged i waith Ysgolion a'r gefnogaeth a ddarparwyd i blant gweithwyr allweddol trwy gydol y pandemig. Gan gyfeirio at dudalen 62 yr agenda a chynllunio hir dymor ar gyfer adfer canol trefi, dywedodd fod ffioedd mewn meysydd parcio wedi cael eu hailgyflwyno ond gofynnodd fod canol trefi yn parhau i gael eu monitro a bod addasiadau'n cael eu gwneud fel y bo angen i annog nifer yr ymwelwyr yn y dyfodol. Tynnodd y Cynghorydd Peers sylw at y wybodaeth am werth cymdeithasol ar dudalen 63 yr agenda a llwyddiant cyfleuster Cartref Gofal Marleyfield. Dywedodd y dylid canmol hyn.

Siaradodd y Cynghorydd Ian Dunbar i gefnogi gwaith y gwasanaethau a ddarparwyd gan dîm Tai ac Asedau i gefnogi preswylwyr Sir y Fflint.

Rhoddodd y Cynghorydd Andy Hughes deyrnged i holl weithwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol am eu gwaith rhagorol trwy gydol y pandemig.

Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Aelodau am eu cefnogaeth. Dywedodd y rhagorwyd ar dargedau a osodwyd ar gyfer perfformiad gwerth cymdeithasol ar gyfer y 12-18 mis cyntaf, ac roedd y Cyngor yn cael ei ystyried yn awdurdod enghreifftiol gan Lywodraeth Cymru, ac yn sgil hynny, gofynnwyd iddo fentora awdurdodau eraill.

Gan fod yr argymhellion wedi'u cynnig a'u heilio, cafwyd pleidlais a chymeradwywyd yr argymhellion.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2020/21; a

(b) Bod gwerthfawrogiad pob Aelod o'r Cyngor am y gwaith rhagorol a wnaed yn ystod pandemig Covid-19 yn cael ei basio ymlaen i Swyddogion a'u timau ym mhob Gwasanaeth.

## 52. RHYBUDD O GYNNIG

Cyfeiriodd y Cynghorydd Ian Roberts at farwolaeth drasig Syr David Amess, Aelod Seneddol Gorllewin Southend, a dywedodd fod y Blaid Lafur yn credu y byddai'n amhriodol i drafod y Rhybudd o Gynnig oedd yn galw ar Lywodraeth y DU i barhau â'r cynnydd o £20 i'r Credyd Cynhwysol ar hyn o bryd. Cynigodd bod y Rhybudd o Gynnig yn cael ei ohirio tan gyfarfod arall yn y dyfodol. Cytunodd yr Aelodau i hyn.

## 53. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dim.

**54. CWESTIYNAU**

Dim.

**55. CYDNABYDDIAETH O WASANAETH GAN COLIN EVERETT, PRIF WEITHREDWR AR FIN GADAEL**

Gwahoddodd Cadeirydd y Cyngor Colin Everett, Prif Weithredwr ar fin gadael i siarad. Yn ei sylwadau agoriadol, diolchodd y Prif Weithredwr i Swyddogion a chydweithwyr yn y Gwasanaethau Democrataidd, Theatr Clwyd, Cyfathrebu Corfforaethol, a Picturehouse am eu gwaith yn trefnu cyfarfod technegol a chymhleth o ran logisteg.

Dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd gan yr Awdurdod y dylanwad rhanbarthol na chenedlaethol yr oedd yn ei haeddu pan ymunodd o â Chyngor Sir y Fflint yn 2007. Siaradodd am ei friff pan gafodd ei benodi, sef dod ag egni newydd ac arweinyddiaeth broffesiynol, a gwneud i newid cadarnhaol ddigwydd. Heddiw, roedd yna gydnabyddiaeth gan nifer o ffynonellau, yn cynnwys y Prif Weinidog, Aelodau Eraill o'r Cabinet, sylwebwyr cenedlaethol bod Cyngor Sir y Fflint yn Gyngor cryf, oedd yn perfformio'n uchel, gan ddarparu arweinyddiaeth i awdurdodau a sefydliadau eraill, a'r awdurdod gorau yng Nghymru am weithio mewn partneriaeth.

Rhoddodd y Prif Weithredwr grynodeb byr o'i yrfa ym maes llywodraeth leol dros 40 mlynedd. Dywedodd y byddai Cyngor Sir y Fflint yn atgof arbennig iddo a'i bod wedi bod yn anrhydedd i wasanaethau ei breswylwyr a chymunedau lleol. Yna rhoddodd gyflwyniad byr gan dynnu sylw at rhai o'r cyflawniadau niferus a digwyddiadau nodedig yn ystod ei gyfnod yn y swydd. Roedd yn teimlo bod yr Awdurdod mewn sefyllfa hyderus, gadarn a chymwys i symud ymlaen yn y dyfodol o dan arweinyddiaeth Neal Cockerton, y Darpar Brif Weithredwr.

Gan gloi, dywedodd y Prif Weithredwr fod y dyfodol yn dda i Ogledd Cymru; a bod ei lleoliad, tirwedd, treftadaeth ac economi yn unigryw. Roedd wedi mwynhau byw yng Ngogledd Cymru yn ystod ei amser fel arweinydd gwasanaethau cyhoeddus ac roedd yn hyderus y byddai'n adfer yn dda o effaith pandemig Covid-19 ac yn parhau i fod yn lle diogel i fyw a gweithio.

Mynegodd y Prif Weithredwr ddiolch eto i Gadeiryddion presennol a chyn Gadeiryddion Cyngor Sir y Fflint, Arweinwyr y Cyngor, Arweinwyr Grwpiau, Aelodau Cabinet, Cadeiryddion Pwyllgorau, ac Aelodau am eu cefnogaeth. Diolchodd hefyd i gydweithwyr oedd yn uwch swyddogion, Prif Swyddogion, Rheolwyr Gwasanaeth a thîm y Prif Weithredwr am eu cefnogaeth a chyfeillgarwch trwy gydol y 14 blynedd diwethaf. Fe soniodd am ei gynlluniau personol at y dyfodol a dywedodd y byddai'n dychwelyd i ymweld pan fyddai yna gyfle.

Croesawodd y Prif Weithredwr Yr Arglwydd Barry Jones a'r Foneddiges Janet Jones i'r cyfarfod. Diolchodd yn arbennig i'r Arglwydd Barry Jones am ei gefnogaeth bersonol fel mentor. Rhoddodd deyrnged i'w waith a rhinweddau personol ac wrth gloi, dywedodd ei fod yn ymgorfforiad o eiriolaeth ar gyfer Sir y

Fflint a’i phobl. Er mwyn cydnabod ei wasanaeth fel Aelod o’r Senedd am 50 mlynedd, gofynnodd y Prif Weithredwr i’r Aelodau sefyll fel teyrnged i’r Arglwydd Barry Jones.

Rhoddodd y Prif Weithredwr deyrnged i’w olynydd Neal Cockerton, y Darpar Brif Weithredwr a chyfeiriodd at ei rinweddau personol a’i foeseg gwaith a’i werthoedd enghreifftiol. Diolchodd Neal Cockerton i’r Prif Weithredwr am ei gyngor, ei fentoriaeth, ei arweiniad a’i gefnogaeth broffesiynol. Diolchodd hefyd ar ran tîm y Prif Weithredwr, y gweithlu, a sefydliadau partner am ei arweinyddiaeth gref drwy rhai o’r digwyddiadau mwyaf heriol y mae’r Cyngor wedi’u hwynebu. Siaradodd am berthynas y Prif Weithredwr gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid rhanbarthol oedd yn allweddol i gyflawni rhaglenni trawsnewidiol a rhyng-genhedlaeth a fyddai’n gadael gwaddol hirdymor yn y rhanbarth. Cyflwynodd y Darpar Brif Weithredwr ffilm fer oedd yn nodi’n gryno beth oedd ei feddyliau a dyheadau ar gyfer dyfodol y Cyngor.

Cyflwynodd y Cadeirydd anrheg ar ran Aelodau a chydweithwyr i’r Prif Weithredwr oedd ar fin gadael, i nodi ei ymddeoliad.

Dywedodd y Cynghorydd Ian Roberts fod ar y Cyngor ddiolchgarwch i’r Prif Weithredwr oedd ar fin gadael. Siaradodd am ei arweinyddiaeth a’i gadernid, a’i rinweddau personol o gyfeillgarwch, caredigrwydd a chefnogaeth a gynhigiwyd i Aelodau pan oedd angen. Fe soniodd am her blynyddoedd o galedi a chyfyngiadau cyllideb difrifol a wynebodd y Cyngor o dan arweiniad y Prif Weithredwr, a gofynion digyffelyb pandemig Covid-19 a ddilynodd. Siaradodd hefyd am bwysigrwydd partneriaeth weithio effeithiol rhwng Swyddogion ac Aelodau a diolchodd i’r Prif Weithredwr am ei allu i weithio gydag Aelodau i gyflawni’r canlyniadau gorau ar gyfer y Cyngor fel darparwr uniongyrchol sylweddol o wasanaethau. I gloi, gofynnodd y Cynghorydd Roberts i Aelodau ymuno ag o ar eu traed i gymeradwyo’r Prif Weithredwr.

Rhoddodd y Cynghorwyr Mike Peers, Marion Bateman, Clive Carver, Carol Ellis, Aaron Shotton a Neville Phillips deyrnged i’r Prif Weithredwr, gan gyfeirio at enghreifftiau o’i waith yn y cefndir yn ymateb i anghenion pobl eraill ac er budd Sir y Fflint a’i phreswylwyr, a diolchasant iddo am ei wasanaeth a’i ymroddiad. Dymunodd yr Aelodau y gorau iddo at y dyfodol a dymuno pob llwyddiant i’r Darpar Brif Weithredwr yn ei swydd newydd.

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) ‘Llyfr Atgofion’ wedi’i rwymo mewn lledr i’r Prif Weithredwr oedd wedi cael ei lunio gan dîm o swyddogion oedd yn cynnwys atgofion, negeseuon o ewyllys da, a straeon gan Aelodau, Swyddogion a chydweithwyr proffesiynol ar draws Cymru. Roedd y llyfr wedi cael ei bwytho â llaw a’i rwymo mewn lledr gyda llythrennau aur gan Mark Allen, Uwch Gadwraethwr yng ngwasanaeth Archifau Gogledd Cymru. Gwahoddodd y Prif Archifydd i egluro’r broses y tu ôl i’r llyfr. Mynegodd y Prif Weithredwr ei werthfawrogiad i bawb oedd wedi cyfrannu at y Llyfr Atgofion, a dywedodd y byddai’n ei drysori.

## 56. <u>AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD</u>

Nid oedd unrhyw aelod o’r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 5.05 pm)

..................................................

**Cadeirydd**